

Chwilio am Wiau'r Ddraig



Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Gosodwch rwystrau i'r plant eu goresgyn
- Anogwch y plant i symud mewn amrywiaeth o ffyrdd
- Helpwch y plant i ddatblygu dealltwriaeth o eiriau allweddol
- Bydd y plant naill ai'n casglu dreigiau/wyau neu'n ceisio eu gweld

Geiriau allweddol

- Hyder, sgiliau cydsymud, rheolaeth, cydbwysedd
- Cerdded, rhedeg, neidio, cropian, milwr yn cropian, llithro
- Dan, dros, ar hyd, o gumpas, trwy, ar, oddi ar, i fyny, i lawr

Cyfleoedd i:

- oresgyn rhwystrau mawr
- symud mewn gwahanol ffyrdd
- datblygu iaith a dealltwriaeth ynghylch safle

Adnoddau

- Cylchoedd, tuneli, estyll cydbwysu, parasiwtiau bach
- Conau, marcwyr dros dro
- Rhaffau, byrddau ystwythder, wyau, dreigiau

Cwestiynau

- Sut defnyddioch chi eich breichiau i'ch helpu ar yr astell gydbwysu?
- Sut gallech chi symud yn wahanol?
- A gymeroch chi eich tro?
- Sut roeddech chi'n teimlo pan oeddech chi yn y tunnel?
- Sut symudoch chi dan y parasiwt?
- Ble gwelsoch chi ŵy?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch bod yr arwynebau'n ddiogel i gropan arnynt

Sicrhewch mai tri neu bedwar plentyn sydd i bob rhwystr

Anogwch y plant i:

- symud yn araf i ddechrau
- cymryd eu tro a pheidio â chiwio
- gwranddo ar gyfarwyddiadau
- plygu eu pengliniau wrth lanio pan fyddant yn neidio oddi ar gyfarpar

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn goresgyn rhwystr mawr yn hawdd?
- Yn symud mewn amrywiaeth o ffyrdd?
- Yn defnyddio iaith ynghylch safle?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- afael yn eich llaw
- trafod ble gallai roi ei ddwylo a'i draed
- cuddio draig neu ŵy, a defnyddio iaith ynghylch safle i ddisgrifio ble mae wedi cuddio ei ŵy
- ymarfer sgiliau gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol
- trafod gwahanol ffyrdd o oresgyn y rhwystr
- creu ei rwystrau ei hun

Anogwch y plentyn i:

- ddal siapiau llonydd ar y rhwystrau, neu yn y rhwystrau, e.e. siâp syth, siâp seren, siâp cath flin
- symud yn ôl, e.e. symud yn ôl ar hyd astell gydbwyso neu gropian yn ôl trwy dunnel
- gwella ei sgiliau arsylwi gweithredol, trwy ei gwneud yn anos iddo ddod o hyd i'r dreigiau/wyau/darluniau sydd o gumpas y cwrs

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad personol – mentro a thyfu'n chwioltwyr hyderus
- Datblygiad Creadigol: Celf, crefft a dylunio – creu neu addurno wyau, yna eu cuddio